# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 4**

CASGLU A RHEOLI’R DRETH

*Talu, adennill ac ad-dalu treth*

**42 Talu treth**

(1) Rhaid i berson sy’n dychwelyd ffurflen dreth dalu’r swm o dreth a nodir ar y ffurflen dreth fel y swm yr aseswyd ei fod i’w godi ar y person ar ddiwrnod ffeilio’r ffurflen dreth neu cyn hynny.

(2) Pan asesir bod swm o dreth i’w godi ar y person o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i’r ffurflen dreth o dan adran 41 o DCRhT (trethdalwr yn diwygio ffurflen dreth), rhaid i’r person dalu’r swm—

(a) os gwneir y diwygiad ar ddyddiad ffeilio’r ffurflen dreth neu cyn hynny, ar y dyddiad ffeilio neu cyn hynny, neu

(b) os gwneir y diwygiad ar ôl dyddiad ffeilio’r ffurflen dreth, ar y diwrnod y mae’r person yn rhoi hysbysiad i ACC am y diwygiad.

(3) Gweler y darpariaethau a ganlyn yn DCRhT am ddarpariaeth ynghylch talu symiau o dreth mewn amgylchiadau eraill—

adran 42(4A) (swm sy’n daladwy o ganlyniad i gywiriad a wneir i ffurflen dreth gan ACC);

adran 45(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen dreth yn ystod ymholiad);

adran 50(4) (swm sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wneir i ffurflen dreth ar ôl cwblhau ymholiad);

adran 52(5) (swm sy'n daladwy yn unol â dyfarniad ACC);

adran 61(2) (swm sy'n daladwy yn unol ag asesiad ACC).

## 43 Dyletswydd i gadw crynodeb treth gwarediadau tirlenwi

(1) Rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy gadw cofnod (sef "crynodeb treth gwarediadau tirlenwi") o—

(a) swm y dreth sydd i'w godi ar y person, a

(b) y dreth a dalwyd gan y person,

mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu.

(2) Caiff ACC bennu—

(a) ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw'r crynodeb treth gwarediadau tirlenwi, a

(b) yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynddo.

(3) Mae'r crynodeb treth gwarediadau tirlenwi i'w drin at ddibenion DCRhT fel cofnod y mae'n ofynnol ei gadw a'i storio'n ddiogel o dan adran 38(1) o DCRhT at ddiben dangos bod y ffurflen dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dychwelyd mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu yn gywir ac yn gyflawn.

## 44 Gohirio adennill

(1) Mae adran 181B o DCRhT (ceisiadau i ohirio) (a fewnosodir gan baragraff 63 o Atodlen 23 i DTTT) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3)—

(a) hepgorer yr "a" ar ôl paragraff (a), a

(b) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder ", ac

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, y rhesymau pam y mae'r person sy'n gwneud y cais yn credu y byddai adennill y swm (a llog ar y swm hwnnw) yn achosi caledi ariannol i'r person."

(3) Yn is-adran (4)—

(a) daw'r geiriau o "yn credu" i "yn ormodol," yn baragraff (a), a

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder "a

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, â rheswm i gredu y byddai adennill y swm (a llog ar y swm hwnnw) yn achosi caledi ariannol i'r person,".

(4) Yn is-adran (5)—

(a) daw'r geiriau o "yn credu" i "yn ormodol," yn baragraff (a), a

(b) yn lle'r geiriau o "caiff ganiatáu" i'r diwedd rhodder "neu

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, â rheswm i gredu mai dim ond mewn cysylltiad â rhan o'r swm (a llog ar y rhan honno) y byddai adennill yn achosi caledi ariannol i'r person,

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

caiff ACC ganiatáu'r cais mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r swm sy'n briodol yn ei farn."

**45 Dim gofyniad i ollwng neu ad-dalu treth oni thelir yr holl dreth**

Yn adran 67 o DCRhT (achosion pan na fo angen i ACC roi effaith i hawliad), ar ôl is-adran (11) mewnosoder—

"(12) Achos 8 yw—

(a) pan wneir yr hawliad mewn cysylltiad â swm o dreth gwarediadau tirlenwi, a

(b) pan na fo swm o dreth gwarediadau tirlenwi y mae'n ofynnol i'r hawlydd ei dalu wedi ei dalu."